

Cyngor Sir y Fflint

Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint 2015 - 2030

Archwiliad

Nodiadau Cyfarwyddyd i Gyfranogwyr

1. Cyflwyniad

- 1.1. Mae'r Nodiadau Cyfarwyddyd hyn wedi cael eu paratoi i gynorthwyo'r unigolion a'r sefydliadau hynny sy'n dymuno bod yn rhan o'r archwiliad i gadernid Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Sir y Fflint 2015 – 2030. Mae'n ofynnol i baratoi cynllun datblygu lleol fel rhan o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.
- 1.2. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y CDLI i'w archwilio gan y cyhoedd rhwng 30 Medi a 11 Tachwedd 2019, yn unol â Rheoliad 17 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (CDLI Datblygu Lleol) (Cymru) 2005.
- 1.3. Ystyriodd Cyngor Sir y Fflint (y Cyngor) yr holl sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad ar y cynllun i'w archwilio gan y cyhoedd cyn cyflwno'r CDLI i'w archwilio; mae Adroddiad Ymgynghori'r Cyngor¹ yn rhoi crynodeb o sylwedd y sylwadau a dderbyniwyd ac ymateb y Cyngor.
- 1.4. Dim ond y rheiny a roddodd sylwadau yn yr ymgynghoriad a grybwyllir yn 1.2 uchod a fydd yn gysylltiedig â'r broses archwilio; dim ond y rheiny sy'n credu bod y CDLI yn simsan ac sy'n ceisio newidiadau i'w wneud yn fwy cadarn sydd â hawl i gymryd rhan yn y sesiynau gwrandawriad. Nid oes angen i'r rheiny sy'n cefnogi neu sydd ond yn gwneud sylwadau am y CDLI gymryd rhan.

2. Arolygwyr a'r Swyddog Rhaglen

- 2.1 Mae Gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi penodi **Siân Worden BA DipLH MCD MRTPI** a **Claire MacFarlane BSc (Hons) MSc MRTPI** (yr Arolygwyr) i gynnal yr archwiliad i asesu cadernid y CDLI.
- 2.2 Swyddog Rhaglen (SRh) yr archwiliad yw **Kerry Trueman**. Mae'n gweithredu'n annibynnol ar y Cyngor a bydd yn gweithio dan gyfarwyddyd yr Arolygwyr. Mae'n gyfrifol am drefnu'r rhaglen wrandawriadau, cynnal llyfrgell yr archwiliad, cofnodi a chyhoeddi'r holl ddeunyddiau a dderbynnir, a chynorthwyo'r Arolygwyr gyda materion gweithdrefnol a gweinyddol. Bydd Kerry yn cynghori mewn ymateb i unrhyw ymholiadau am raglenni a gweithdrefnau.

¹ LDP-KPD-CR1

- 2.3 Os yw'r Cyngor neu gyfranogwyr eraill yn dymuno codi unrhyw faterion gyda'r Arolygwyr dylent eu cyfeirio at y SRh a hynny trwy e-bost os oes modd.

Gellir cysylltu â hi trwy ffonio 07582 310364 neu trwy e-bostio kerry.trueman@Flintshire.gov.uk

3. Pwrpas yr archwiliad

- 3.1. Pwrpas yr archwiliad yw archwilio cadernid y CDLI. Mae'n bwysig nodi bod yr archwiliad yn cwmpasu'r broses gyfan o archwilio'r CDLI, o'r amser y caiff cadarnhad ei roi bod y CDLI wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'r amser y mae'r Cyngor yn derbyn Adroddiad yr Arolygwyr.
- 3.2. Rôl yr Arolygydd yw ystyried os yw'r CDLI yn cwrdd â gofynion Adrannau 62-64 o Ddeddf 2004 a rheoliadau cysylltiedig, ag os yw'n cydymffurfio â'r profion cadernid wedi'u cynnwys ym mharagraff 6.26 a Thabl 27 o Lawlyfr Cynllun Datblygu Lleol 3 (2020)². Mae tri phrawf: os yw'r CDLI yn gyson â'r dogfennau perthnasol eraill; os yw'r CDLI yn briodol ar gyfer yr ardal yng ngoleuni'r dystiolaeth; ac os oes modd darparu'r CDLI a'i fod yn effeithiol. Dylai'r Cyngor ddibynnu ar y dystiolaeth a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r CDLI i ddangos ei fod yn gadarn. Rhaid i'r rheiny sy'n edrych i wneud newidiadau i'r CDLI arddangos pam bod y ddogfen ddim yn gadarn a sut y byddai'r newidiadau y maen nhw'n ei hargymu yn ei wneud yn gadarn.
- 3.3. Man cychwyn yr archwiliad yw archwilio p'un a yw'r CDLI a gyflwynwyd yn gadarn. Wrth archwilio cadernid, bydd yr Arolygwyr yn ystyried y sylwadau a wnaed mewn ymateb i'r CDLI a gyflwynwyd ond dim ond i ba raddau y maent yn berthnasol i'r profion cadernid. Nid oes gofyn i'r Arolygwyr bennu ac adrodd ynglŷn â phob pwynt unigol a wnaethpwyd ym mhob gwrthwynebiad ond byddant yn defnyddio'r sylwadau fel man cychwyn i ystyried a yw'r CDLI yn gadarn.
- 3.4. Mae'n rhaid i'r Arolygwyr hefyd ymarfer eu dyletswyddau o dan Adran 39 Deddf 2004 gyda'r amcan o gyfrannu at ddatblygu cynaliadwy. Ar ddiwedd y broses archwilio bydd yr Arolygwyr yn cynhyrchu adroddiad terfynol sy'n cynnwys argymhellion a rhesymau dros eu hargymhellion.
- 3.5. Bwriad y sesiynau gwrandawriad yn yr archwiliad yw darparu proses chwylsol dan gyfarwyddyd yr Arolygwyr, yn hytrach na'r rhyngweithio mwy gwrthwynebol a oedd yn digwydd rhwng y Cyngor a'r gwrthwynebwyr yn ymchwiliadau'r cynllun lleol a'r cynllun datblygu unedol yn y gorffennol. Yn gyffredinol, bydd y rhannau hynny lle gofynnir am gyfranogiad yn archwiliad y CDLI yn gyfres o sesiynau bwrdd crwn ar-lein dan arweiniad yr Arolygwyr ac yn mynd i'r afael â phynciau neu faterion penodol yn hytrach na sylwadau unigol. Mae'r pynciau trafod a nodir yn codi o gwestiynau ynglŷn â chadernid y CDLI sydd wedi'u codi gan y sylwadau neu eu nodi gan yr Arolygwyr.

² Rhifyn 3, cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru

- 3.6. Ni fydd polisiâu cenedlaethol fel y cyfryw yn destunau dadl ond bydd yr archwiliad yn ystyried eu cymhwysiad a'u goblygiadau os yw materion tebyg yn codi o'r polisiâu a'r cynigion yn y CDLI. Nid argymell newidiadau i CDLI cadarn er mwyn ei wella mewn agweddau eraill yw prwpas yr archwiliad.
- 3.7. Ar ddiwedd yr archwiliad bydd yr Arolygwyr yn cyflwyno eu hadroddiad i'r Cyngor gyda chasgliadau ac argymhellion am y camau gweithredu neu'r newidiadau sydd eu hangen, os o gwbl, er mwyn gwneud y CDLI yn un cadarn. Mae'r addasiadau a argymhellir yn rhwymo'r Cyngor ac mae'n rhaid iddynt gael eu gwneud cyn i'r Cyngor fabwysiadu'r CDLI.
- 3.8. Mae'r dogfennau canlynol yn darparu'r fframwaith gweithdrefnol ar gyfer cynnal yr archwiliad:
- Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol, Rhifyn 3, Llywodraeth Cymru, 2020.
 - Rhan 6, Adran 62-72 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.
 - Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005
 - Archwiliadau Cynlluniau Datblygu Lleol – Canllawiau Gweithdrefn, Arolygiaeth Gynllunio Cymru, 2015.
- 3.9. Dylai cyfranogwyr ymgyfarwyddo fel sy'n briodol â'r rhannau perthnasol yn y dogfennau uchod. Nodir mwyafrif y canllawiau gweithdrefnau yn y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol a chanllaw gweithdrefnau yr Arolygiaeth Gynllunio. Mae'r rhain a dogfennau polisi a chanllawiau cynllunio perthnasol eraill ar gael i'w gweld / lawrlwytho ar wefan yr archwiliad.

4. Cyfarfod Cyn Gwrandawriad

- 4.1. Cynhelir y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad **ddydd Mawrth 12 Ionawr 2021** am **2:30pm**. Pwrpas y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad yw esbonio a thrafod materion gweithdrefnol a gweinyddol yn ymwneud â rheoli'r archwiliad, gan gynnwys y rhaglen ar gyfer y gwrandawriadau, y materion i'w harchwilio a'r cwestiynau perthnasol, y drefn a'r cyfranogwyr, dulliau o ymdrin â sylwadau, yr amserlen ar gyfer cyflwyno unrhyw ddeunyddiau ychwanegol sy'n ofynnol (gan gynnwys datganiadau gwrandawriadau), ac unrhyw faterion perthnasol eraill.
- 4.2. Ni fydd cynnwys na rhinweddau'r CDLI na'r sylwadau yn cael eu trafod yn y cyfarfod hwn, er hynny mae'n bosibl y bydd yr Arolygwyr yn nodi materion neu bynciau y teimlant sydd angen deunyddiau ychwanegol ar eu cyfer i'w cynorthwyo i ystyried cadernid agwedd benodol ar y CDLI.
- 4.3. Yn y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad bydd yr Arolygwyr yn gofyn cyfres o gwestiynau gweithdrefnol i'r Cyngor i gadarnhau bod y CDLI wedi cael ei baratoi yn unol â'r gweithdrefnau statudol dan Adran 64(5)(a) Deddf 2004 a rheoliadau cysylltiedig, a'i fod yn cael ei gefnogi gan Arfarniad o Gynaliadwyedd. Byddant hefyd yn egluro'r sefyllfa o ran y Cynllun

Cynnwys Cymunedau a'r Cytundeb Cyflawni. Mae'r holl ddogfennau perthnasol ar gael ar wefan yr archwiliad.

- 4.4. Mae agenda'r Cyfarfod Cyn Gwrandawriad yn gynwysedig ar ddiwedd y nodiadau hyn fel Atodiad A. Bydd Nodyn o'r Cyfarfod Cyn Gwrandawriad, Rhaglen Ddrafft y Sesiynau Gwrandawriad, a Materion yr Arolygwyr yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr archwiliad yn fuan ar ôl y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad. Cynghorir y rheiny sydd wedi gwneud sylwadau hefyd i wirio tudalen we'r archwiliad yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yr archwiliad. Yn achlysurol bydd "eitemau newyddion diweddaraf" yn ymddangos.
- 4.5. Bydd y Cyngor yn hysbysebu dyddiad y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad gan roi o leiaf 4 wythnos o rybudd.

5. Sylwadau a wnaed am y CDLI

- 5.1 O dan Reoliad 22(2)(iv) o Reoliadau CDLI, mae'r Cyngor wedi cadarnhau ei fod wedi derbyn 1281 o sylwadau wedi'u gwneud yn briodol gan 657 o wahanol ymatebwyr mewn perthynas â'r ymgynghoriad ar y CDLI i'w archwilio gan y cyhoedd.

6. Dulliau o ystyried sylwadau

- 6.1 Mae dwy brif ffordd y gall Arolygwyr ystyried sylwadau a wnaethpwyd mewn perthynas â'r CDLI:
- **Sylwadau ysgrifenedig:** Yn seiliedig ar y sylw gwreiddiol ac ymateb y Cyngor i faterion a godwyd. Gall yr Arolygwyr hefyd geisio gwybodaeth ychwanegol er mwyn cael eglurhad. Caiff y rhan fwyaf o sylwadau eu hystyried yn y dull hwn. Ni chaiff sylwadau ysgrifenedig eu trafod yn y gwrandawriadau ac nid oes angen mynychu'r sesiynau gwrandawriad.
 - **Sylwadau llafar:** Os yw pobl sydd wedi gwneud sylwadau wedi dweud eu bod yn dymuno cael gwrandawriad llafar*, ymdrinnir â materion perthnasol yn y sylwadau mewn sesiynau gwrandawriad a drefnwyd ar gyfer yr archwiliad. Yn y sesiynau hyn, bydd y Cyngor a chyfranogwyr eraill yn dadlau ynghylch y prif bwyntiau am y materion allweddol a nodwyd gan yr Arolygwyr mewn trafodaeth drefnus a deallus dan eu cyfarwyddyd nhw.

****DS Dim ond y rheiny sydd wedi cyflwyno gwrthwynebiad a wnaed yn briodol i'r CDLI i'w archwilio gan y cyhoedd sydd â hawl i gael gwrandawriad a gallant gymryd rhan mewn gwrandawriadau sy'n berthnasol i'w gwrthwynebiad nhw.***

Mae'r ddau ddull yn dwyn yr un pwysau a bydd yr Arolygwyr yn rhoi ystyriaeth gyfartal i farn a gyflwynwyd ar lafar ac yn ysgrifenedig.

- 6.2 Dylai'r strategaeth, polisiau a dyraniadau yn y CDLI fod yn realistig ac yn briodol o ystyried dewisiadau amgen perthnasol a dylent fod yn seiliedig ar sylfaen dystiolaeth gadarn.
- 6.3 Bydd yr Arolygwyr yn dechrau o safle lle mae'r Cyngor wedi cyflwyno strategaeth, polisiau a dyraniadau y mae'n eu hystyried yn gadarn. Ni fydd yr Arolygwyr yn edrych y tu hwnt i strategaeth, polisiau a dyraniadau'r CDLI oni bai eu bod yn penderfynu fel arall.
- 6.4 Ffocws yr archwiliad fydd asesu p'un a oes digon o safleoedd dyranedig cyraeddadwy i ddiwallu'r angen a nodwyd. Gallai hyn gynnwys edrych ar gadernid safleoedd dyranedig unigol. Gall hyrwyddwyr safleoedd eraill ymarfer eu hawl i gael eu clywed a chyflwyno dadleuon ynglŷn â'r materion hyn os ydynt wedi cyflwyno gwrthwynebiadau sy'n amlinellu beth yw eu pryderon. Nid ydynt fodd bynnag yn cael hyrwyddo rhinweddau eu safleoedd eu hunain.
- 6.5 Nid oes gofyn i'r Arolygwyr adrodd am bob pwynt unigol na safleoedd eraill unigol. Dim ond os penderfynir bod angen safleoedd eraill er mwyn diwallu'r angen am dai neu os yw'r safleoedd dyranedig yn simsan y bydd yr Arolygwyr yn gofyn i'r Cyngor gyflwyno safleoedd eraill ac ystyried yr angen am sesiynau gwrandawriad ychwanegol.

7. Y weithdrefn yn y Sesiynau Gwrandawriad

- 7.1 Bydd y Cyngor yn hysbysebu bod y sesiynau gwrandawriad yn dechrau o leiaf 6 wythnos o flaen llaw. Disgwylir iddynt ddechrau **ddydd Mawrth 23 Chwefror 2021**. Bydd dyddiadau'r sesiynau gwrandawriad yn cael eu nodi yn y rhaglen a'r amserlen wrandawriadau ddrafft a fydd yn ymddangos ar wefan yr archwiliad a'i ddiweddarau yn ôl yr angen.
- 7.2 Bydd y sesiynau gwrandawriad yn canolbwyntio ar gadernid y CDLI ac yn ystyried y profion cadernid sy'n gysylltiedig â gofynion gweithdrefnol a chysondeb, cydlyniaeth ac effeithiolrwydd y CDLI. Cynhelir sesiwn gwrandawriad ar wahân i'r archwiliad ar gyfer pob un o'r prif bynciau a nodwyd yn y rhaglen. Bydd y sesiynau ar ffurf trafodaeth dan arweiniad yr arolygwyr lle bydd y Cyngor a'r rheiny sy'n dymuno cael eu clywed yn trafod y prif bwyntiau a nodwyd.
- 7.3 Gall cyfranogwyr gael cynrychiolwyr proffesiynol i siarad ar eu rhan a gallant ofyn cwestiynau am y dystiolaeth ond ni chaniateir unrhyw gyflwyniad ffurfiol o dystiolaeth, croesholi na chyflwyniadau ffurfiol. Nid oes gofyn i gyfranogwyr gael cynrychiolydd proffesiynol neu gyfreithiol.
- 7.4 Ar ddechrau pob sesiwn bydd yr Arolygwyr yn creu agenda gyda'r pwyntiau i'w trafod ym mhob pwnc. Bydd y drafodaeth yn canolbwyntio ar y materion a nodwyd yn yr agenda a'r cwestiynau a ofynnwyd. Bydd yr Arolygwyr yn dechrau trwy wneud ychydig o sylwadau cryno am y materion a gwmpesir cyn gwahodd cyfranogwyr i gyfrannu at y ddadl. Bydd y sesiwn yn gweithredu dan arweiniad yr Arolygwyr, gan ofyn i gyfranogwyr gymryd rhan yn y drafodaeth mewn modd sy'n eu galluogi i

gael y wybodaeth angenrheidiol i ddod i gasgliad cadarn am y materion perthnasol.

- 7.5 Pan fydd y datganiadau pellach, a wahoddir gan yr Arolygwyr, yn cael eu cyhoeddi ar y wefan bydd eitem "newyddion diweddaraf" yn cael ei hychwanegu. Dylai'r cyfranogwyr ymgyswgu â'r rhain ac unrhyw sylwadau sy'n berthnasol i'r sesiynau gwrandawriad y maent yn gysylltiedig â nhw. Gellir gweld crynodeb o'r sylwadau ar wefan yr archwiliad hefyd. Caiff y gwrandawiadau eu cynnal ar y sail bod pawb sy'n cymryd rhan wedi darllen y dogfennau perthnasol er y bydd cyfranogwyr yn gallu cyfeirio at bwyntiau perthnasol ac ymhelaethu arnynt yn ôl yr angen.
- 7.6 Bydd yr Arolygwyr yn ceisio bwrw ymlaen â'r sesiynau gwrandawriad mewn modd effeithiol ac effeithlon, gan gadw gafael gref ar y trafodaethau a'r amser a ganiateir. Fel rhan o'r broses honno, bydd yr Arolygwyr yn ceisio sicrhau nad oes mwy o ddeunyddiau yn cael eu cynhyrchu nag sydd ei angen i'w galluogi i ddod i gasgliadau deallus am y materion. Byddant hefyd yn atal cyflwyniadau neu drafodaethau llafar ailadroddus nad ydynt yn canolbwyntio ar y dystiolaeth.
- 7.7 Os oes angen cymorth neu gyfleusterau arbennig ar unrhyw unigolion anabl, dylent gysylltu â'r Swyddog Rhaglen o flaen llaw er mwyn caniatáu i drefniadau priodol gael eu gwneud.
- 7.8 Mae croeso i gyfranogwyr yn y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad a'r sesiynau gwrandawriad ddefnyddio'r Gymraeg a gellir sicrhau bod cyfleusterau cyfieithu ar gael.

Fformat

- 7.9 Bydd y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad a'r sesiynau gwrandawriad yn ddigidol: hynny yw, byddant yn cael eu cynnal ar-lein ar blatfform Zoom a bydd yr holl gyfranogwyr, gan gynnwys yr arolygwyr, y SRh, a thîm y Cyngor, ac arsyllwyr yn mewngofnodi trwy eu cyfrifiaduron. Byddant hefyd ar agor i arsyllwyr yn yr un ffordd â digwyddiadau wyneb yn wyneb. Bydd mwy o wybodaeth a chyfarwyddiadau ar sut i ymuno neu wyllo'r Cyfarfod Cyn Gwrandawriad a'r gwrandawiadau yn cael eu darparu yn nes at yr amser. Os hoffech gymryd rhan (os ydych yn ateb y meini prawf i wneud hynny) neu arsyllu, ond os nad oes gennych fynediad at gyfrifiadur addas neu ffôn glyfar, cysylltwch â'r SRh er mwyn trafod eich anghenion.
- 7.10 Cadwch mewn cof bod digwyddiadau digidol yn newydd ac mae'n debyg y bydd pob parti yn anghyfarwydd â'r broses a'r dechnoleg ar y dechrau. Gan hynny, byddem yn gwerthfawrogi'ch amynedd a'ch cydweithrediad yn ystod y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad a'r gwrandawiadau. Fodd bynnag, bydd y rhain yn gweithredu yn y ffordd arferol i raddau helaeth, ond yn amlwg bydd yn rhaid i rai pethau fod yn wahanol i sicrhau eu bod yn cael eu rhedeg yn esmwyth. Gallwch fod yn sicr y bydd pob cyfranogwr yn cael siawns i fynd i'r afael â'r pwyntiau a godwyd gan yr Arolygwyr.

- 7.11 Gan y bydd pawb dan sylw yn gweithio ar sgriniau, sy'n gallu bod yn ddwys ac yn flinedig, bydd yr Arolygwyr yn sicrhau bod seibiau rheolaidd yn cael eu darparu. Mae'r rhain yn debygol o gael eu rhoi bob ryw 90 munud.
- 7.12 Yn ystod y digwyddiadau a fydddech cystal â diffodd eich camera a'ch microffon nes i chi gael gwahoddiad i siarad. Yn dibynnu ar y platfform, bydd cyfleuster ar gael i chi roi gwybod eich bod yn dymuno siarad, er enghraifft botwm codi llaw. Ni fydd arsyllwyr yn gallu siarad mewn gwrandawliadau a dylent sicrhau bod eu microffonau a'u camerâu wedi diffodd trwy gydol y sesiwn. A fydddech cystal a sicrhau hefyd, os oes gennych ffôn wrth eich ymyl, eich bod wedi ei thawelu neu bod galwadau wedi cael eu dargyfeirio.
- 7.13 Oherwydd bod hwn yn fformat newydd, mae'n bosibl y bydd problemau annisgwyl yn codi yn ystod y digwyddiadau. Os oes unrhyw gyfranogwyr yn dioddef o unrhyw broblemau TG fel colli cysylltiad â'r digwyddiad er enghraifft, yn gyntaf byddwn yn oedi'r digwyddiad am 5 munud. Yn y cyfnod hwnnw, dylech geisio mewngofnodi yn ôl yn syth, yn yr un ffordd ag y bydddech wedi'i wneud ar ddechrau'r digwyddiad.
- 7.14 Os yw'r broblem yn parhau mae'n bosibl y gellir oedi yn hirach ac os nad oes modd datrys y broblem mae'n bosibl y bydd angen i ni ohirio tan rhyw ddiwrnod arall. A fydddech cystal a chadw rhif ffôn y SRh gerllaw yn ystod digwyddiadau digidol er mwyn gallu rhoi gwybod iddi os ydych yn cael unrhyw broblemau.

8. Rhaglen Gwrandawliadau

- 8.1 Mae'r sesiynau gwrandawliad yn yr archwiliad yn debygol o bara sawl wythnos gydag egwyliau. Bwriedir creu rhaglen ddrafft o wrandawliadau sy'n adlewyrchu'r prif bynciau trafod a bydd ar gael ar y wefan ychydig cyn y Cyfarfod Cyn Gwrandawliad. Gwahoddir y rheiny sydd wedi cyflwyno sylwadau priodol ynglŷn â'r pynciau hyn i gymryd rhan yn y sesiynau perthnasol.
- 8.2 Gwneir pob ymdrech i gadw at y rhaglen ond mae'n bosibl na fydd modd osgoi rhai newidiadau hwyr. Rhoddir blaenoriaeth i ddechrau'r ddadl ar bob mater ar yr amser a benodwyd ac ar rai achlysuron mae'n bosibl y bydd angen ymestyn y ddadl i mewn i sesiwn y prynhawn. Bydd y SRh yn hysbysu'r cyfranogwyr o unrhyw newidiadau hwyr i'r amserlen ond y cyfranogwyr fydd yn gyfrifol am ofalu bod y trefniadau a'r rhaglen gyfredol ganddyn nhw, yn bennaf trwy wirio gwefan yr archwiliad.

9. Paratoi a chyflwyno deunyddiau pellach

Llyfrgell yr Archwiliad

- 9.1 Mae'r dogfennau craidd, gan gynnwys yr holl rai sydd wedi bod yn sail i ddatblygiad y CDLI a'r sylfaen dystiolaeth, i gyd ar gael i'w gweld / lawrlwytho ar lyfrgell gwefan yr archwiliad.

<https://www.flintshire.gov.uk/en/Resident/Planning/LDP-Examination-ub-Pages/Examination-Library.aspx>

Ein bwriad yw argraffu cyn lleied o gopïau papur o'r dogfennau ag sy'n bosibl. Dylai unrhyw un sy'n dymuno gweld copïau papur o unrhyw un o ddogfennau'r archwiliad gysylltu â'r SRh. Mae'r dogfennau craidd hefyd yn cyfeirio at bolisiau a chanllawiau cenedlaethol perthnasol, papur cefndir, CDLI a CCAu presennol, ac unrhyw ddogfennau eraill y mae'r Cyngor yn debygol o gyfeirio atynt.

9.2 Dylai cyfranogwyr sicrhau bod unrhyw ddogfennau ychwanegol y maent yn bwriadu cyfeirio atynt yn cael eu hychwanegu at lyfrgell yr archwiliad trwy drefnu bod y dogfennau'n cael eu hanfon yn electronig at y SRh.

9.3 Caiff unrhyw gyflwyniadau ysgrifenedig pellach neu ddeunyddiau eraill y gofynnir amdanynt gan yr Arolygwyr eu hychwanegu at lyfrgell yr archwiliad wrth iddynt gael eu cyflwyno. Dylai cyfranogwyr wirio gwefan yr archwiliad yn rheolaidd am ddiweddariadau.

Cyflwyno datganiadau ysgrifenedig pellach a deunyddiau eraill

9.4 Dylai'r sylwadau sydd eisoes wedi'u gwneud yn ystod yr ymgynghoriad ar y cynllun i'w archwilio gan y cyhoedd gynnwys yr holl bwyntiau, dogfennau a thystiolaeth i gyfiawnhau achosion y rhai sydd wedi gwneud sylwadau. Ni ddylai cyfranogwyr felly gyflwyno unrhyw ddeunyddiau pellach yn seiliedig ar eu sylwadau gwreiddiol. Er bod posibilrwydd bod pobl wedi gwneud sylwadau yn gynharach ym mhroses y CDLI, sylwch mai dim ond copïau o sylwadau a wnaed o gyfnod yr ymgynghoriad ar y cynllun i'w archwilio gan y cyhoedd ymlaen sydd gan yr Arolygwyr.

9.5 Dylai unrhyw ddatganiadau pellach a geisir gan yr Arolygwyr gan rai sydd wedi gwneud sylwadau fynd i'r afael â'r materion a nodwyd gan yr Arolygwyr a dylent gael eu cyflwyno **o leiaf pythefnos** cyn y sesiwn gwrandawriad perthnasol. Nodir y dyddiad cau i gyflwyno datganiadau pellach yn y rhaglen ddrafft o wrandawriadau.

9.6 Yn y bôn, mae angen i ddatganiadau pellach roi'r wybodaeth ganlynol i Arolygwyr:

- Pa ran benodol o'r CDLI sy'n simsan? (y polisi / paragraff / tudalen yn y CDLI)
- Pa brawf/broffion cadernid, a nodir yn Nhabl 27 y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol, y mae'n eu methu?
- Pam ei fod yn methu?
- Sut y gellir gwneud y CDLI yn gadarn?
- Beth yn union yw'r newid/geiriad sy'n cael ei geisio?

9.7 Bydd y papur Materion ar gael ar y wefan o gwmpas amser y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad. Bydd angen i'r Cyngor roi ymateb ysgrifenedig i'r Arolygwyr ar gyfer pob un o'r cwestiynau a ofynnwyd yn y papur materion, gan nodi pam mae'n credu bod y CDLI yn gadarn ac, os yw'n

briodol, pam y byddai'r newidiadau a geisiwyd gan bartïon eraill yn ei wneud yn simsan.

- 9.8 Dylai pob cyflwyniad fod yn gryno ac osgoi manylion ac ailadrodd diangen. Nid oes angen dyfyniadau gair-am-air o'r CDLI na ffynonellau eraill o ganllawiau polisi. Er hynny, mae'n hanfodol bod elfennau sylfaenol achosion yn cael eu nodi'n glir ac yn gryno, gan nad yw'r gwrandawiadau yn lle i gyflwyno pwyntiau neu dystiolaeth newydd am y tro cyntaf. Dylai datganiadau gan gynrychiolwyr ganolbwyntio ar y materion a nodwyd gan yr Arolygwyr.
- 9.9 Dylai cyfranogwyr geisio dod i gytundeb am faterion ffeithiol ac ystadegau cyn i'r gwrandawiadau ddechrau ac anogir pawb i gynnal deialog gyda'r Cyngor a chyfranogwyr eraill cyn y gwrandawiadau. Gall Datganiadau o Dir Cyffredin fod yn ffordd ddefnyddiol o gulhau'r materion sy'n bynciau dadl a dylid eu cyflwyno o fewn y terfynau amser a nodir uchod.
- 9.10 Nid oes angen paratoi datganiad pellach os yw'r holl bwyntiau a godir yn y papur materion, a'r cwestiynau a restrir ym mharagraff 9.6 uchod, eisoes wedi'u cwmpasu yn y sylw gwreiddiol. Byddai'n help pe bai'r cyfranogwyr yn hysbysu'r SRh os nad ydynt yn bwriadu cyflwyno datganiadau pellach.
- 9.11 Dylai cyfranogwyr sy'n dymuno cyflwyno datganiadau ysgrifenedig pellach mewn ymateb i'r materion gadw mewn cof bod datganiad ar wahân yn ofynnol ar gyfer pob sesiwn gwrandawriad. Bydd y SRh yn gofyn am fersiwn electronig yn unig (oni bai bod y SRh yn cysylltu â chi yn dilyn hynny yn gofyn am gopiâu papur).
- 9.12 Ni ddylai datganiadau fod yn hirach na 3,000 o eiriau yr un ac mae'n bosibl y bydd unrhyw ddatganiadau sy'n llawer rhy hir neu sy'n cynnwys deunyddiau digymell yn cael eu dychwelyd.
- 9.13 Dylai tystiolaeth dechnegol ategol fod yn gyfyngedig i atodiadau a dylent fod â chysylltiad clir â'r achos. Dylid cyfyngu unrhyw ddeunyddiau ategol i'r hyn sy'n hanfodol. Nid oes angen dyfyniadau o unrhyw ddogfennau sydd eisoes yn llyfrgell yr archwiliad. Nid oes angen datganiadau crynodeb. Dylai pob datganiad gynnwys cyfeirnod y sawl sydd wedi gwneud sylwadau (sef Rhif ID Ymgynghorai a ddyfynnir ar yr ohebiaeth gan y SRh).
- 9.14 Mae gallu'r Cyngor i dderbyn dogfennau hir trwy e-bost i'r Swyddog Rhaglen yn destun cyfyngiadau. Mae'n bosibl y caiff negeseuon e-bost sydd â ffeiliau maint 20MB neu uwch eu gwrthod.
- 9.15 Dylai pob cyfranogwr gadw at yr amserlen i gyflwyno datganiadau pellach. Mae cyflwyniadau hwyr a phapurau ychwanegol yn annhebygol o gael eu derbyn ar ddiwrnod y sesiwn berthnasol gan y gall hyn amharu ac arwain at annhegwch, a gallai arwain at ohirio'r gwrandawriad ar ôl cychwyn. Os nad yw'r deunyddiau wedi'u derbyn cyn y terfynau amser a nodwyd bydd y SRh yn tybio nad yw'r cyfranogwr hwnnw yn dymuno gwneud unrhyw sylwadau.

10. Argaeledd gwybodaeth

10.1 Bydd y SRh yn cadw llyfrgell yr archwiliad ar-lein ar wefan yr archwiliad. Bydd hyn yn cynnwys y dogfennau craidd gan gynnwys copïau o'r CDLI a dogfennau cysylltiedig yn ogystal â chrynodebau o'r holl sylwadau. Bydd y llyfrgell hefyd yn cynnwys dogfennau archwilio sy'n cynnwys sylwadau pellach, datganiadau a gohebiaeth berthnasol fel y mae'n cyrraedd. Bydd y llyfrgell dan oruchwyliaeth y SRh a fydd yn cynorthwyo unrhyw un sy'n dymuno gweld unrhyw ddogfen.

11. Trefniadau ymweliadau safle

11.1 Fel rhan o'r archwiliad, bydd yr Arolygwyr yn cynnal taith ymgyfarwyddo o amgylch yr ardal, ymweld â lleoliadau sy'n cael eu hystyried yn angenrheidiol ar eu pennau eu hunain. Os yw cyfranogwyr yn credu bod rhesymau eithriadol dros gynnal ymweliad gyda rhywun arall, dylid trafod hynny gyda'r SRh.

12. Diwedd yr archwiliad

12.1 Bydd yr archwiliad yn dal i fod ar agor nes bod adroddiad yr Arolygwyr wedi'i gyflwyno i'r Cyngor. Fodd bynnag, ni fydd yr Arolygwyr yn derbyn unrhyw sylwadau pellach na thystiolaeth ar ôl i'r sesiynau gwrandawriad orffen oni bai eu bod ar gais penodol. Mae unrhyw ddeunyddiau hwyr neu ddigymell yn debygol o gael eu dychwelyd.

13. Cyflwyno Adroddiad yr Arolygwyr i'r Cyngor

13.1 Ar ôl i'r archwiliad orffen, bydd yr Arolygwyr yn cyflwyno'r Adroddiad i'r Cyngor gydag argymhellion sy'n rhwymo. Bydd y dyddiad cyflwyno yn dibynnu i raddau helaeth ar gynnwys, maint a hyd yr archwiliad. Bydd yr Arolygwyr yn cadarnhau'r dyddiad y bydd yr adroddiad yn debygol o gael ei gyflwyno unwaith y bydd y sesiynau gwrandawriad wedi'u cwblhau.

SW/CMacF Rhag 2020

DYDDIADAU ALLWEDDOL

Y Cyngor yn cyflwyno'r CDLI i'w archwilio	6 Tachwedd 2020
Cyfarfod Cyn Gwrandawriad	12 Ionawr 2021
Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno datganiadau ysgrifenedig sy'n ymateb i faterion i'w harchwilio	O leiaf pythefnos cyn y gwrandawriad perthnasol
Sesiynau gwrandawriad yn cychwyn	23 Chwefror 2021

